
# Sut i greu a chynnal dôl blodau gwyllt

**Wyddech chi bod blodau gwyllt yn bwysig iawn er mwyn cynnal ecosystem iach? Mae hynny oherwydd eu bod yn denu llwyth o wenyn, ieir bach yr hâf adar ac anifeiliaid i'n parciau a'n gerddi. O ganlyniad, mae blodau gwyllt yn hanfodol i sicrhau ein iechyd a'n lles yn y dyfodol. Gallwch chi chwarae rhan bwysig mewn sicrhau mwy o flodau gwyllt yn ardal Pen-y-bont – gall hyd yn oed darn bach o dir wneud y byd o wahaniaeth! Mae'n hawdd iawn creu dôl blodau gwyllt yn eich gardd neu, gyda chaniatâd, yn eich gofod gwyrdd lleol.**

## Cychwyn arni – beth fydd ei angen arnoch

+ **Cymysgedd hadau blodau gwyllt - ceisiwch ddewis math parhaol (blodau sy'n tyfu flwyddyn ar ôl blwyddyn) sydd â llawer o flodau gwyllt brodorol, hawdd eu peillio ynddo. Mae rhai da yn cynnwys briallu Mair, llygad llo mawr, suran, meillion coch, brenhines y ddôl, blodau llo bach, arian y gwair, melynllys, moron y maes, ac amrywiaeth o weiriau gwyllt (e.e. maeswelltydd, melys y defaid a rhonwellt y ci).**
+ **Rhaw**



## Sut i greu dôl blodau gwyllt

1. Dewiswch le addas i blannu eich dôl blodau gwyllt, e.e. hen wely blodau neu ddarn o lawnt. Mae blodau gwyllt yn tyfu'n well mewn pridd anghynhyrchiol neu fel arall bydd y gweiriau'n tagu'r blodau. Yr amser gorau i hau'r ddôl yw dechrau'r hydref ond gall y tir gael ei baratoi unrhyw bryd.
   – dewiswch fan agored a heulog
   – dim ots os yw'r tir yn wastad neu ar oleddf
   – heuwch hadau'r blodau yn yr hydref i gael y canlyniadau gorau
2. Gwnewch eich tir yn llai ffrwythlon trwy gael gwared ar y 3-6 modfedd uchaf o'r pridd â thorrwr tyweirch neu raw.
3. Palwch y pridd a thynnu unrhyw chwyn ohono.
   – gwnewch i'ch pridd edrych yn debyg i friwsion bara wedi iddo gael ei balu
   – os nad ydych yn hau hadau yn syth, cuddiwch y ddaear â phlastig du i ladd unrhyw hadau chwyn sydd yn y pridd cyn i chi hau eich hadau blodau.

## Sut i greu dôl blodau gwyllt parhad

4. Heuwch hadau'r blodau gwyllt rhwng Awst a dechrau mis Hydref.
   - dilynwch y cyfarwyddiadau ar y pecyn
   - gwasgarwch yr hadau yn gytbwys ar draws y tir rydych yn ei blannu
5. Cerddwch yn ysgafn ar draws y llain ar ôl i chi hau'r hadau, i wneud yn siwr bod yr hadau'n cyffwrdd â'r pridd. Does dim angen eu cribinio na'u gorchuddio â phridd.
6. Rhowch ddigonedd o ddŵr i'r pridd nes i'r hadau ddechrau tyfu.
7. Mwynhewch weld eich dôl yn tyfu a newid o flwyddyn i flwyddyn. Gallwch weld gwenyn, ieir bach yr haf, ceiliogod rhedyn, adar ac ystlymod, a fydd wrth eu bodd yn defnyddio eich dôl.



## Sut i gynnal a chadw dôl blodau gwyllt

**Os ydych wedi hau eich dôl â hadau parhaol, bydd angen tipyn o ofal arni. Mae'n bwysig eich bod yn rheoli eich dôl er mwyn ei chadw'n iach, a helpu i gynnal cymysgedd hardd ac amrywiol o flodau a gweiriau ynddi.**



### Sut i reoli dôl newydd

I ysgogi blodau parhaol a gweiriaiu i dyfu'n dda, bydd angen torri'r ddôl yr haf cyntaf wedi i chi ei hau. Yn eich tymor tyfu cyntaf, dylech:

+ dorri'r tyfiant ganol haf
+ symud y toriadau rhag bod gormod o faetholion yn mynd nôl i mewn i'r pridd

Bydd y ddôl yn blodeuo eto yn gynnar yn yr hydref, ac wedi hynny gellwch ei thorri yn ôl unwaith eto.

*Parhad drosodd*





## Sut i gynnal a chadw dôl blodau gwyllt
parhad



### Sut i gynnal dôl sydd wedi ymsefydlu
Dylid torri dolydd sydd wedi ymsefydlu ddwywaith y flwyddyn am y canlyniadau gorau. Mae hyn yn helpu i ysgogi'r blodau i dyfu.

1. **Toriad y gwanwyn** – mae hwn yn help gyda dolydd lle mae'r glaswellt wedi tyfu'n iraidd. Dylid torri'r ddôl erbyn diwedd Ebrill fan bellaf. Gallwch ei thorri nôl i uchder o ryw 7.5cm (3 modfedd).
2. **Toriad diwedd Haf/Hydref** – mae'r toriad yma'n cael gwared ar dyfiant dros ben, gan gadw'r gweiriau draw er mwyn i'r blodau gwyllt ddal i dyfu ar y ddôl. Dylai'r glaswellt gael ei dorri rhwng diwedd Awst a diwedd Tachwedd. Gadewch y toriadau i sychu ar y ddaear am ychydig ddyddiau er mwyn i'r hadau allu disgyn i'r ddôl. Gallwch eu clirio wedyn. Mae'r toriad hwn yn arbennig o bwysig os yw'r pridd yn gymharol ffrwythlon.

**Noder**
*Os oes gennych ddôl barhaol sydd wedi ei sefydlu, gallwch ei rheoli'n effeithiol gyda dim ond un toriad, neu ddau, yn ystod y flwyddyn.*

### Adeiladu gwesty pryfed
**Beth am adeiladu gwesty gwenyn neu westy pryfed ger eich dôl blodau gwyllt fel bod gan yr holl bryfed newydd rywle i fyw? Gweler ein taflen 'Sut i adeiladu gwesty pryfed'.**



## 5 cyngor da ar ofalu am ddôl blodau gwyllt

1. Peidiwch â rhoi bwyd neu ddŵr ychwanegol i flodau gwyllt. Does dim angen. Os gwnewch chi, gallai hynny newid cydbwysedd planhigion y ddôl. Bydd ychwanegu maetholion yn achosi i weiriau dyfu a allai dagu'r blodau.
2. Symudwch y toriadau ar ôl diwrnod neu ddau i wneud y pridd yn llai ffrwythlon.
3. Tynnwch y chwyn parhaol o'r pridd â llaw. Gall chwyn fel dail tafol, ysgall a danadl poethion ddechrau tyfu yn eich dôl, a bydd angen eu difa cyn iddyn nhw hau hadau, i'w hatal rhag tagu eich dôl â chwyn.
4. Peidiwch â defnyddio chwyn-laddwyr lawnt ar eich dôl blodau gwyllt. Bydd yn lladd y blodau gwyllt rydych yn ceisio eu meithrin.
5. Chwiliwch am grwpiau lleol a all helpu gyda'ch dôl blodau gwyllt, a chynnig cyngor, cyfleoedd i wirfoddoli a llawer iawn mwy, fel:
   - Grŵp Dolydd Y Fro, Pen-y-bont a CNPT ar y cyfryngau cymdeithasol
   - project Gweirgloddiau Gwych Plantlife Cymru